



# Grantiau i Gymru 2023-2025 Canllawiau

Cronfa Treftadaeth Bensaernïol  
[www.ahfund.org.uk/cymru](http://www.ahfund.org.uk/cymru)

Hydref 2024



## Beth mae'r Gronfa yn ei wneud?

Mae'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF) yn helpu cymunedau i ddod o hyd i ffyrdd mentrus o adfywio'r hen adeiladau. Gwawn ni hyn trwy ddarparu cyngor, grantiau a benthyciadau. Mae ein grantiau wedi'u targedu tuag at ddatblygu prosiectau cyfnod cynnar, tra bod modd defnyddio benthyciadau ar unrhyw adeg mewn prosiect. Mae ein benthyciadau buddsoddi cymdeithasol (cyllid ad-daladwy) hefyd ar gael am brynu adeiladau, darparu cyfalaf gwaith, cyllid pontio / llif arian, neu i gychwyn gweithgareddau mentrus.

Ein nodau yw:

- cyflawni buddsoddiad wedi'i dargedu sy'n arwain at aildefnyddio a rheoli adeiladau hanesyddol yn gynaliadwy
- cefnogi elusennau a mentrau cymdeithasol cael perchen ar, datblygu a chynnal defnydd newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol
- hyrwyddo effaith adfywio treftadaeth ac a arweinir gan y gymuned.

## Pa fathau o brosiectau mae'r Gronfa'n eu cefnogi?

Rydym am gefnogi gwaith cadwraeth ac aildefnyddio adeiladau hanesyddol yn gynaliadwy er budd cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd dan anfantais economaidd.

Yn gyffredinol, bydd eich prosiect yn gymwys os yw **pob** un o'r canlynol yn berthnasol:

- mae eich prosiect yn cynnwys adeilad hanesyddol, yr ydym yn ei ddiffinio fel:
  - rhestredig yn genedlaethol - Gradd I, II\*, neu II
  - rhestredig yn leol
  - nad yw'n rhestredig ond mewn Ardal Gadwraeth, a/neu
  - sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gymuned leol am ei ddiddordeb hanesyddol
- mae eich prosiect yn cael ei arwain gan sefydliad nid-er-elw preifat
- mae eich prosiect yn cynnwys newid defnydd a/neu newid perchnogaeth
- mae gan eich sefydliad eisoes neu'n ceisio cael caffael y rhydd-ddaliad neu brydles hir (fel arfer am o leiaf 25 mlynedd) ar yr adeilad

Pethau na allwn eu hariannu:

- gwaith sydd wedi cychwyn cyn penderfyniad i ddyfarnu grant
- gwaith cyfalaf ar y safle
- costau atgyweirio nad ydynt yn rhan o gynllun mwy i ddod o hyd i ddefnydd cynaliadwy newydd
- costau cynnal a chadw parhaus

Cefnogir grantiau'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yng Nghymru yn diolch i gyfraniad ariannol hael gan Lywodraeth Cymru, Cadw.

## Pwy all wneud cais?

Rhaid i'ch sefydliad fod yn un o'r sefydliadau nid-er-elw preifat canlynol, neu'n sefydliad sy'n perthyn i haenau isaf llywodraeth leol:

- Sefydliad anghorfforedig (ar gyfer Grantiau Hyfywedd Prosiect yn unig)
- Sefydliad Corfforedig Elusennol
- Cwmni elusennol wedi'i gyfyngu trwy warant
- Cymdeithas Budd Cymunedol
- Cwmni nid-er-elw preifat wedi'i gyfyngu trwy warant
- Cwmni Buddiannau Cymunedol wedi'i gyfyngu trwy warant
- Cydweithfa
- Cyngor cymuned neu dref
- Cyrff seciwlar annibynnol sy'n ceisio cymryd perchnogaeth o fan addoli a fydd yn cadw rhywfaint o ddefnydd crefyddol. Neu sefydliad sy'n gysylltiedig â chymuned addoli sy'n ceisio sefydlu corff seciwlar annibynnol i gymryd perchnogaeth o'r man addoli, tra bydd y gofod yn cadw rhywfaint o ddefnydd crefyddol. Hyd nes y bydd perchnogaeth/prydles hir yn cael ei gadarnhau, byddwn ond yn ariannu costau llywodraethu a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â chymryd perchnogaeth neu sefydlu corff annibynnol i wneud hynny. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i addoliad parhaus gyfrif am lai na hanner y defnydd arfaethedig o'r gofod.

## Ni fyddwn yn ariannu

- Unigolion preifat
- Awdurdodau lleol neu gyrff sector cyhoeddus eraill heblaw am gyngor cymuned neu dref (oni bai eu bod yn gwneud cais ar ran sefydliad sy'n dal i gael ei ffurfio)
- Prifysgolion, colegau a sefydliadau addysgol prif ffrwd eraill, gan gynnwys ysgolion annibynnol
- Cwmnïau elw, oni bai eu bod mewn partneriaeth dan arweiniad sefydliad nid-er-elw
- Sefydliadau anghorfforedig (e.e. ymddiriedolaethau a chymdeithasau elusennol) nad ydynt yn bwriadu ymgorffori
- Sefydliadau sydd â llai na thri ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr. Os nad oes ond tri ymddiriedolwr / cyfarwyddwr, ni ddylai'r un o'r rhain fod yn briod nac yn gysylltiedig â'i gilydd fel arall
- Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig
- Eglwysi neu fannau addoli eraill, lle bydd yr adeilad neu'r gofod o fewn yr adeilad yn cael ei ddefnyddio fel man addoli crefyddol gweithredol - a ddiffinnir fel cynnal gwasanaethau crefyddol rheolaidd neu weithgareddau sy'n seiliedig ar grefydd, megis gweddi neu astudiaeth grefyddol.

Os nad ydych yn sicr os ydy eich prosiect yn gymwys ar sail gweithgaredd crefyddol sy'n digwydd yn eich adeilad, cysylltwch ag un o'n Swyddogion a fydd yn gallu rhoi arweiniad pellach.

## Blaenoriaethau ariannu

Byddwn ni'n blaenoriaethu prosiectau sy'n:

- cynnwys defnydd newydd o adeilad hanesyddol gwag
- yn y 30% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig (yn ôl [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#))
- cynnwys a chefnogi cymunedau amrywiol ac ymylol
- canolbwyntio'n gryf ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac effeithlonrwydd ynni
- cyfrannu at gynlluniau adfywio lleol

## Sut mae ceisiadau'n cael eu hasesu?

1. Ystyriwn werth treftadaeth a chyflwr eich adeilad, gan gynnwys os yw mewn perygl. A yw o arwyddocâd hanesyddol, pensaernïol, neu artistig clir? Ydy e'n arbennig o bwysig o fewn eich cymuned? A oes gan eich prosiect y potensial i wella ei gyflwr, a gwella mynediad?
2. Edrychwn ar yr effaith gymdeithasol ac economaidd y gallai eich prosiect ei gyflawni. Rhaid i'r adeilad a'ch gweledigaeth ar ei gyfer gael y potensial i gynyddu bywiogrwydd y lle – er enghraifft drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr, creu arlwy newydd ar gyfer preswylwyr neu ymwelwyr, neu gefnogi swyddi a datblygu sgiliau. Byddwn yn ystyried a yw'n cyfrannu at gynllun adfywio lleol, fel cynllun gwella trefi. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, ac i brosiectau a arweinir gan a/neu fod o fudd i gymunedau ethnig Du, Asiaidd neu leiafrifol neu gymunedau anabl, sydd wedi'u tangynrychioli'n draddodiadol fel perchnogion a defnyddwyr asedau hanesyddol.
3. Ystyriwn effaith amgylcheddol y prosiect. A yw opsiynau ar gyfer gwella cynaliadwyedd amgylcheddol yr adeilad a'i ddefnydd yn cael ei archwilio neu yn ei le?
4. Rydyn ni'n ystyried eich angen ariannol am grant, a pham mae angen i'r gwaith ddigwydd nawr. Er enghraifft, a yw adeilad sydd mewn perygl o gael ei gollu, neu a oes gennych chi gyllid cyfatebol amser cyfyngedig?
5. Rydym yn asesu'r risgiau posibl i'ch prosiect, a'ch hanes sefydliadol a'ch gallu i gyflawni'r gwaith a gynigir.

## Grantiau Hyfywedd Prosiect

**Swm grant:** hyd at £10,000

**Hyd y prosiect:** hyd at flwyddyn

**Arian tuag at:** archwilio opsiynau am aildefnyddio

**Arian cyfatebol:** Gallwn ariannu hyd at 100%

**Ble:** unrhyw le yng Nghymru

**Cam prosiect:** Cam RIBA 0 – 2

### Pa fath o waith y gellir ei gefnogi gyda grant cyfnod cynnar?

Dylai'r grantiau hyn eich helpu i ganfod a yw prosiect yn ymarferol. Gall gwaith ganolbwyntio ar ddeall cyflwr yr adeilad, sut y gellid ei ddefnyddio, ac a yw'r defnydd hwnnw a fwriedir yn briodol ar gyfer yr adeilad ac yn debygol o fod yn gynaliadwy.

Efallai y byddwch eisoes wedi cyflawni neu gomisiynu rhywfaint o waith, ond bydd gennych rai bylchau i'w llenwi o hyd. Neu efallai eich bod yn dechrau o'r dechrau ac yn edrych ar opsiynau posibl. Mae angen arnom ni ddeall sut bydd y darn penodol o waith neu weithgaredd yr ydych yn ei gynnig yn eich helpu i symud ymlaen a chyfrannu tuag at adfywio adeilad hanesyddol.

Mae grantiau fel arfer yn cefnogi asesiad cychwynnol o gyflwr ac anghenion atgyweirio'r adeilad, amlinellu dyluniau sy'n cyd-fynd â'i werth treftadaeth a all ddarparu ar gyfer y defnyddiau sy'n cael eu hystyried, a chost amlinellol y gwaith sydd ei angen i atgyweirio a thrawsnewid yr adeilad, ac arolygon neu archwiliadau sy'n nodi ffyrdd o wella effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd y gwaith cyfnod cynnar hwn hefyd yn cynnwys ystyried yr achos busnes amlinellol ar gyfer y defnyddiau posibl, yn seiliedig ar ymchwil i'r farchnad ac ymgynghori cymunedol, a sut y gellid ariannu'r prosiect. Mewn rhai o achosion, efallai y bydd angen cael prisiad eiddo annibynnol – er enghraifft, a all y strategaeth gyllido gynnwys buddsoddiad cymdeithasol (benthyciad), lle mae perchennog yr adeilad wedi nodi pris gwerthu a allai fod yn rhy uchel, neu i nodi'r diffyg cadwraeth, sef lle bydd cost y prosiect yn fwy na gwerth yr adeilad wedi'i adfer.

Mae'r gwaith cyfnod cynnar hwn yn cyfateb yn fras i Gynllun Gwaith y Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydeinig 0 - 2. Efallai y bydd yn ddefnyddiol cyfeirio at Gynllun Gwaith RIBA wrth drafod eich gofynion gyda phensaer neu dîm proffesiynol a datblygu briffiau am eu gwaith. Gallwch gyfeirio at ganllaw cryno o [gamau Cynllun Gwaith RIBA](#).

### Beth fydd y grant hwn yn eich helpu i'w gyflawni?

Ar ddiwedd y gwaith a ariennir, dylech fod mewn sefyllfa i benderfynu a ddylech ymrwymo i gostau, risgiau ac ymdrech bellach wrth ddatblygu'r prosiect, a dylech gael syniad clir o'r camau nesaf.

Darparwn templed a chanllaw ar gwblhau arfarniadau hyfywedd prosiect a all helpu dod â chanlyniadau o unrhyw adroddiadau ac astudiaethau proffesiynol ynghyd â'ch gwybodaeth eich hun am yr ardal a'r prosiect posibl. Bydd hon hefyd yn ddogfen y gallwch chi wedyn ei chyflwyno i ddarparu gyllidwyr a rhai sy'n rhoi cymorth i helpu i egluro'ch cynlluniau.

## Grantiau Datblygu Prosiect

**Swm grant:** hyd at £20,000

**Arian tuag at:** costau datblygu prosiect

**Ble:** unrhyw le yng Nghymru

**Hyd y prosiect:** hyd at flwyddyn

**Arian cyfatebol:** Gwell ond nid yn hanfodol

**Cam prosiect:** Cam RIBA 2 - 4

### Pa fath o waith y gellir ei gefnogi gyda grant datblygu?

Gall y grantiau hyn eich helpu i ddatblygu eich cynigion o ddichonoldeb hyd at ddechrau gwaith cyfalaf. Gallwch wneud cais am gymorth grant i benodi ymynghorwyr proffesiynol i weithio gyda'ch sefydliad i ychwanegu eu harbenigedd a'u gwybodaeth i ddatblygu'r cynlluniau. Gall y rhain gynnwys penseiri, tirfesurwyr, peirianwyr ac ati. i ddatblygu'r cynlluniau pensaernïol ar gyfer yr adeilad hanesyddol; cymorth i adeiladu capasiti eich sefydliad drwy gyflogi neu gontractio rheolwr prosiect; ailddiffinio eich cynllun busnes, adeiladu ymgysylltu â'r gymuned a pharatoi ceisiadau am gyllid.

Os ydych wedi cwblhau Arfarniad Hyfywedd Prosiect na chafodd ei ariannu gennym ni, bydd angen i chi ddarparu manylion y gwaith rydych wedi'i wneud i brofi hyfywedd eich cynlluniau – gallai hyn gynnwys Arfarniad Opsiynau, cynllun busnes neu ddogfennau eraill. Byddwn yn ystyried pa mor debygol yw hi y bydd eich prosiect yn gallu mynd ymlaen i ddenu'r cyllid cyfalaf sydd ei angen.

Bydd angen i chi ddangos y bydd y cynigion yn cydymdeimlo â chymeriad hanesyddol yr adeilad, ac nid yn ei niweidio. Rydym eisiau cadarnhad nad oes unrhyw reswm mewn egwyddor pam na fyddai caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig yn cael eu rhoi. Bydd angen i hyn ategu tystiolaeth sy'n profi eich bod wedi cymryd cyngor priodol, gan gynnwys cyngor gan weithwyr proffesiynol sy'n ag achrededig mewn cadwraeth.

Asesir ceisiadau am hyd at £10,000 o fewn amserlen fyrrach. Mae'n bosibl gwneud cais fwy nag unwaith ar gyfer camau gwaith olynol, hyd at uchafswm o £40,000 pob prosiect, yn eich galluogi symud ymlaen yn raddol. Fel rheol, mae'n rhaid cwblhau un darn o waith cyn i'r llall ddechrau.

### Beth fydd y grant hwn yn eich helpu i'w gyflawni?

Ar ddiwedd y gwaith a ariennir, neu'r gyfres o grantiau pe bai'n fwy nag un, byddai disgwyl ichi gyrraedd y cam o sicrhau cyllid cyfalaf i alluogi cyflawni'ch prosiect.

## Pwyntiau i'w nodi

Gallwn ariannu hyd at 100% o gost y gwaith dan sylw, er y bydd y pecyn gwaith cyffredinol sy'n ofynnol yn aml yn fwy nag y gallwn fforddio ei dalu ein hunain. Yn yr achos hwnnw, mae'n well gennym weld rhywfaint o dystiolaeth sy'n dangos bod ariannu cyfatebol wedi'u sicrhau neu wedi'u ceisio: nid oes rhaid i chi fod wedi sicrhau unrhyw ariannu cyfatebol i allu gwneud cais. Mae ariannu cyfatebol yn golygu y byddech chi'n cyfrannu at rai o'r costau o'ch adnoddau eich hun a/neu arian a gesglir o ffynonellau eraill.

Os nad ydych eisoes yn berchen ar yr adeilad, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth sy'n profi bod gennych obaith rhesymol o sicrhau perchnogaeth – er enghraifft, llythyr gan y perchennog yn rhoi statws cynigydd a ffefrir i chi, neu ei fod wedi cytuno i ganiatáu amser i chi gasglu'r ariannu angenrheidiol.

Yn gyffredinol, dylech fod eisoes wedi sefydlu fel un o'r mathau sefydliadol a restrir uchod, ond, os rhan o'ch gwaith yw archwilio'r math gorau o sefydliad i'w sefydlu, byddwn yn derbyn ceisiadau cyn cofrestru'ch grŵp yn ffurfiol. Fel lleiafswm, byddwn am weld bod gennych strwythur llywodraethu cychwynnol, cyfansoddiad, a chyfrif banc sefydliad.

Mae'n well gennym i geisiadau fod yn seiliedig ar ddyfynbris cywir yn hytrach nag amcangyfrifiad. Os yw unrhyw eitem o waith yr ydych yn ceisio arian ar ei chyfer dros £10,000, rhaid i chi gael o leiaf tri dyfynbris cystadleuol. Cysylltwch â Swyddog Cymorth os oes arnoch angen cymorth gyda hyn.

Bydd angen i chi ddangos y bydd y cynigion yn cydymdeimlo â chymeriad hanesyddol yr adeilad, ac nid yn ei niweidio. Rydym eisiau cadarnhad nad oes unrhyw reswm mewn egwyddor pam na fyddai caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig yn cael eu rhoi. Bydd angen i hyn ategu tystiolaeth sy'n profi eich bod wedi cymryd cyngor priodol, gan gynnwys cyngor gan weithwyr proffesiynol sy'n ag achrededig mewn cadwraeth.

## Enghreifftiau am gostau cymwys:

- Ffioedd am ymgynghorwyr sydd eu hangen i helpu i ddatblygu cynlluniau (e.e. pensaer, syrfêwr meintiau, peiriannydd adeileddol, peiriannydd mecanyddol a thrydanol, ymgynghorydd ynni).
- Costau cyfreithiol lle mae hyn yn hanfodol wrth gadarnhau perchnogaeth neu hyfywedd defnyddiau arfaethedig (e.e. cyngor ar gyfamodau cyfyngedig) neu am gyngor ar lywodraethu (e.e. i bennu'r model cyfansoddiadol priodol ar gyfer cyflawni'r prosiect a gweithredu'r adeilad ar ôl ei gwblhau).
- Costau sy'n gysylltiedig â sefydlu elusen, trosi Cwmni Buddiannau Cymunedol yn elusen, neu drosi elusen neu fenter gymeithasol bresennol yn Gymdeithas Budd Gymunedol.
- Prisiad eiddo gan brisiwr cofrestredig o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).
- Cynllun codi arian amlinellol.
- Cynllun busnes amlinellol.
- Costau ymgysylltu â'r gymuned (e.e. allgymorth, digwyddiadau dros dro, ymgynghoriadau).
- Cyngor TAW arbenigol i nodi'r dull mwyaf effeithlon o ran treth.

- Gorbenion sefydliadol / costau gweinyddol (hyd at 20% o ofyniad grant).
- Cyflogi cydlynnydd prosiect (naill ai rhywun a benodir yn allanol ar sail ymgynghoriaeth neu aelod(au) o staff presennol sy'n gweithio oriau **ychwanegol** ar y prosiect penodol hwn).
- Aelodaeth am flwyddyn o sefydliad perthnasol, fel y Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Treftadaeth, *Heritage Alliance*, neu *Fit for the Future*.

**Nodwch na allwn ariannu unrhyw waith sydd wedi dechrau neu gostau yr ydych wedi ysgwyddo cyn i ni gyflwyno llythyr cynnig grant.**

## Sut i wneud cais

**Amserlen ymgeisio:** proses ymgeisio dau gam

- Gallwch gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb ar unrhyw bryd. (Cam 1)
- Fe fyddwch yn clywed 'nôl gennym ni o fewn 2 wythnos.
- Os yw eich prosiect yn cyd-fynd yn dda gyda'n blaenoriaethau ariannu, byddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn. (Cam 2)
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi a yw'ch cais wedi bod yn llwyddiannus 2 - 3 mis ar ôl derbyn eich cais ail gam.

**Cam 1** – cwblhewch ein ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb byr ar-lein. Mae hon yn gofyn am wybodaeth gychwynol am eich sefydliad, yr adeilad y mae gennych ddiddordeb ynddo, a'ch cynlluniau ar ei gyfer. Rydym yn croesawu'r cyfle i drafod eich cynlluniau gyda chi cyn i chi gyflwyno eich ymholiad. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi unwaith y byddwn wedi derbyn eich ymholiad i drafod eich prosiect a gofyn rhai cwestiynau dilynol.

**Cam 2** – os yw eich sefydliad a'ch prosiect yn gymwys ac yn ymddangos yn ffit da gyda'n blaenoriaethau, byddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn. Byddwn yn anfon dolen atoch i'r ffurflen gais ar-lein. Gallwch gwblhau a chyflwyno hon i ni pan fyddwch chi'n barod.

Sicrhewch eich bod yn darllen y canllawiau hyn yn llawn cyn dechrau eich cais ac yn cyfeirio at nodiadau cymorth y ffurflen gais wrth i chi gwblhau eich cais.

**Penderfyniad** - fel arfer rydym yn cymryd 6 - 8 wythnos i asesu ceisiadau. Yna bydd eich cais yn cael ei ystyried yn un o'n cyfarfodydd misol ar gyfer ceisiadau hyd at £10,000 ac yn ein cyfarfodydd chwarterol ar gyfer ceisiadau rhwng £10,000 a £20,000. Byddwn yn dweud wrthy'ch pryd y bydd hyn unwaith y byddwn yn derbyn eich cais, a byddwch yn clywed y canlyniad o fewn wythnos i'r cyfarfod hwn. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn rhoi adborth.

## Dogfennau Ategol

**Hanfodol i bob ymgeisydd:**

1. Dogfen lywodraethol eich sefydliad (os na chafodd ei darparu o'r blaen).
2. Rhestr o ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr cyfredol, a disgrifiad byr iawn o'u rolau a'u profiad perthnasol.



3. Copi o gofnodion cyfarfod gyda ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr eich sefydliad, gan gofnodi'n ffurfiol y penderfyniad i fynd â'r prosiect yn ei flaen a gwneud cais am grant gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.
4. Cyfrifon a archwilwyd a mantolen ddiweddaraf eich sefydliad, cyfrifon rheoli diweddar (os ydynt ar gael) neu ddatganiad ariannol ardystiedig cyfredol.
5. O leiaf chwe delwedd ddigidol o ansawdd uchel o du mewn a thu allan yr adeilad ac unrhyw ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol cysylltiedig.

### **Hanfodol i bob ymgeisydd ac eithrio y rhai sy'n ymgeisio am Grant Hyfywedd Prosiect**

6. Prawf o feddiant eich sefydliad ar yr adeilad (e.e. copi o'r weithred eiddo o'r Gofrestrfa Tir) neu dystiolaeth y gall eich sefydliad gaffael yr adeilad (e.e. llythyr gan y perchennog yn nodi parodrwydd mewn egwyddor i drosglwyddo meddiant i'ch sefydliad).
7. Adroddiad Hyfywedd, Astudiaeth Ddichonoldeb neu Arfarniad o'r Opsiynau. Dylent gynnwys y canlynol:
  - Tystiolaeth bod y cynigion yn debygol o gael eu caniatáu yn nhermau cynllunio a chadwraeth (e.e. copi o'r cyngor cyn gwneud cais a dderbyniwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol)
  - Tystiolaeth o ymgynghori â'r gymuned/rhanddeiliaid
  - Adroddiad o'r ymchwil marchnad/tystiolaeth o'r g alw gan ddefnyddwyr

### **Eitemau ychwanegol:**

#### **Ymgeiswyr ar gyfer Grantiau Datblygu Prosiect**

Efallai na fydd eich cais am grant yn cynnwys yr holl eitemau gwaith a nodwyd, ac os felly, dim ond os yw'n berthnasol y bydd angen anfon y wybodaeth. Mae gwybodaeth ategol yn cryfhau'r cais gan ei fod yn ein helpu i asesu hyfywedd cyffredinol y prosiect a sut y gallai ein cronfeydd helpu i symud y prosiect yn ei flaen.

8. Cynllun busnes.
9. Adroddiad prisio, os yw'n berthnasol, er enghraifft i gefnogi cyfrifo diffyg cadwraeth, neu mewn perthynas ag ariannu'r prosiect.
10. Adroddiad ar gyflwr yr adeilad/arolwg strwythurol.
11. Datganiad seiliedig ar Dreftadaeth ac Asesiad Effaith.
12. Copi o friffiau ar gyfer gwaith datblygu.
13. Rhestr o'r ymgynghorwyr a wahoddwyd i roi dyfynbris am y gwaith datblygu a chopi o'r dyfynbris neu'r tendr a ffefrir.
14. Disgrifiad o'r swydd a manyleb person yr unigolyn/unigolion a fydd yn gweithio ar y prosiect (naill ai staff presennol neu staff newydd i'w penodi).
15. CV yr unigolyn a recriwtiwyd i weithio ar y prosiect.
16. Cyfrifo dyraniad o'r costau gorbenion (gan ddefnyddio'r dull adennill costau llawn).
17. Strategaeth codi arian y prosiect, ynghyd â chadarnhad o'r dyfarniadau a sicrhawyd hyd yma.
18. Gohebiaeth berthnasol â darpar gyllidwyr prosiect.

19. Copïau o unrhyw lythyrau cynnig grant (yn ymwneud â'r gwaith rydych chi'n gofyn i ni ei ariannu).
20. Cytundeb partneriaeth neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth.
21. Unrhyw wybodaeth berthnasol arall rydych chi'n meddwl y mae angen i ni ei gweld.

## Beth sy'n digwydd pan fydd grant wedi'i ddyfarnu?

Byddwch yn derbyn llythyr cynnig ffurfiol sy'n cynnwys telerau ac amodau. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn derbyn y rhain cyn i chi ddechrau'r gwaith a ariennir.

Rydym yn darparu canllawiau ychwanegol i ddeiliaid grantiau, ond y pwyntiau allweddol i'w nodi ar hyn o bryd yw:

- Rhaid i'r gwaith yr hoffech i ni ei ariannu beidio â dechrau tan ar ôl i ni wneud penderfyniad i ddyfarnu grant. Ni allwn dalu costau yr ydych wedi'u hysgwyddo cyn dyddiad cynnig eich grant.
- Mae ein grantiau fel arfer yn ddilys am flwyddyn.
- Byddwn ni'n gofyn am newyddion diweddaraf yn ystod y gwaith, fel arfer pan rydych chi'n hawlio'r grant. Ar ôl ei gwblhau, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu diweddariadau byrion, fel y gallwn ddeall y canlyniadau y mae ein cyllid wedi'u helpu i chi eu cyflawni.
- Byddwn yn gofyn i chi roi cyhoeddusrwydd i'n cymorth i'ch prosiect fel un o amodau'r grant.
- Fel arfer, gwneir taliadau grant mewn ôl-ddyledion, unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau: bydd angen i chi gyflwyno ffurflen hawlio ar-lein a lanlwytho copïau o anfonebau a thystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd. Os oes angen, gallwn dalu fesul cam; byddwn yn trafod ac yn trefnu hyn gyda chi.

## Ydych chi'n cynnig cefnogaeth ariannol arall?

Ochr yn ochr â grantiau, mae'r Gronfa'n darparu buddsoddiad cymdeithasol (cyllid ad-daladwy a benthyciadau) i elusennau, mentrau cymdeithasol a busnesau cymunedol ledled y DU sy'n ceisio cael caffael ar adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol, a'u hailddefnyddio neu eu hailddatblygu. Mae buddsoddiad cymdeithasol ar gael er mwyn prynu adeiladau, i ddarparu cyfalaf gweithio, ar gyfer cyllid pontio / llif arian, neu i gychwyn gweithgareddau mentrus. Dysgwch fwy am y gwahanol gyngor, y buddsoddiad cymdeithasol a'r grantiau, yr ydym yn eu darparu ar ein gwefan [www.ahfund.org.uk](http://www.ahfund.org.uk).

## Lle allaf gael mwy o gymorth a gwybodaeth?

Gallwch hefyd ddod o hyd i fanylion cyswllt [ein tîm](#) o Swyddogion Cymorth, a fydd yn hapus i helpu.